# Ymateb ymgynghoriad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cadw ffermwyr yn ffermio

## Crynodeb Gweithredol

### Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru

Ni yw prif gorff amgylcheddol Cymru. Mae ein rolau'n cynnwys cynghori Llywodraeth Cymru, rheoleiddio diwydiannau a darparu trwyddedau amgylcheddol, bod yn Gorff Cadwraeth Natur Statudol Cymru, rheoli tua 7% o dir Cymru, bod yn ymatebydd brys Categori 1, bod yn ymgynghorai statudol (ar gyfer ceisiadau cynllunio a phrosesau statudol eraill), a chydweithio ar brosiectau amgylcheddol. Rydym yn cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd integredig, a hynny er mwyn cyflawni ein diben cyffredinol o helpu Cymru i reoli ei hadnoddau naturiol yn gynaliadwy a chyflawni ei nodau llesiant.

### Rydym yn cefnogi'r weledigaeth a gynigir gan Cadw ffermwyr i ffermio

Mae CNC wedi bod yn cefnogi datblygiad yr ymgynghoriad Cynllun Ffermio Cynaliadwy terfynol hwn gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cefnogi'r weledigaeth gyffredinol a nodir yn *Cadw ffermwyr i ffermio*. Mae'r cynigion yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cyflawni polisi amgylcheddol ar draws bron pob daliad amaethyddol yng Nghymru a, gyda dull myfyriol, byddant yn ymaddasol, yn ymatebol ac yn fwy effeithiol wrth i'r cynllun ddatblygu dros amser. Mae synergedd da rhwng canlyniadau rheoli tir yn gynaliadwy a geisir gan y cynllun a rhai ein cynllun corfforaethol. Ein pwrpas craidd yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac rydym yn falch bod y cynllun yn cefnogi'r egwyddorion hyn. Er mwyn sicrhau cymorth effeithiol ac integredig i ffermwyr sy'n ymuno â'r cynllun, ac yng ngoleuni'r pwysau ar arian cyhoeddus, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i rannu ein lefelau gwasanaeth presennol o dan gynlluniau a chyfundrefnau cyfredol, sefydlu'r disgwyliadau o ran beth arall y mae ei angen, a chytuno sut y bydd hyn yn digwydd, a pha adnoddau fydd eu hangen.

### Rydym yn cefnogi bod o leiaf 10% o bob fferm yn cael ei rheoli fel cynefin

Ochr yn ochr â phawb yng Nghymru, mae gan amaethyddiaeth ran amlwg i'w chwarae wrth fynd i'r afael ag adfer byd natur, gwella ein gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, ac atal llygredd hyd yr eithaf – ac, yn gyffredinol, mae'r mesurau i

gefnogi ffermwyr i wneud hynny yn galonogol. Rydym yn cefnogi'r egwyddor y dylai ffermwyr gael eu hariannu i ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol – nid ar draul bwyd. ond fel rhan annatod o'r cynnyrch a ddarperir gan ffermio. Ar gyfer sectorau eraill fel coedwigaeth, cydnabyddir o dan Safon Coedwigaeth y DU fod yn rhaid i leiafswm o 15% o uned rheoli coedwig gael ei rheoli gyda chadwraeth a gwella bioamrywiaeth yn brif amcan.

## Rydym yn cefnogi cynnydd yn y gorchudd coed ar ffermydd, ond mae ffyrdd hyblyg a chytbwys o gyflawni hyn

Mae cynyddu gorchudd coed ledled Cymru yn ateb costeffeithiol ar sail natur sy'n rhan greiddiol o strategaeth liniaru'r Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd. Bydd gan y rhan fwyaf o ffermydd rywfaint o allu i gynyddu gorchudd coed a dylid targedu hyn yn ofodol fel bod graddfa a dosbarthiad coed yn briodol i ddod â gwelliannau amgylcheddol cadarnhaol o ran ansawdd dŵr, atal llygredd a bioamrywiaeth. Gallai coetir newydd ddarparu incwm fferm, cynnyrch fferm newydd, a buddion ar gyfer lles anifeiliaid a chynhyrchiant, yn ogystal â chynorthwyo cyllidebau carbon ffermydd. Mae cael y cymysgedd cywir o orchudd coed ar gyfer yr amgylchedd, cynhyrchiant ffermydd a chyfleoedd busnes fferm yn hanfodol.

## Nid yw'r cynllun yn mynnu bod 20% o ffermydd yn cael eu tynnu allan o gynhyrchiant

Mae cynhyrchiant fferm yn hanfodol os yw ffermydd i fod yn ariannol gynaliadwy ac mae CNC yn cydnabod bod busnesau ffermio yn gweithredu mewn cyd-destun hynod heriol y tu hwnt i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyda phwysau cynyddol yn sgil rheoliadau newydd, chwyddiant, a chost mewnbynnau ar gyfer ynni ac iechyd a lles anifeiliaid. Nid yw'r cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ffermydd sbario 20% o'u daliad i fodloni'r 10% o dir a reolir fel cynefin a chyrraedd rheolau gorchudd coed o o leiaf 10%. Mae gan y fferm gyffredin eisoes 6% i 7% o orchudd coed ac mewn llawer o achosion bydd y gorchudd coed hwnnw'n cyfrif tuag at dir a reolir fel cynefin. Gall tir a reolir fel cynefin barhau i gael ei bori a'i reoli ar gyfer ei botensial cynhyrchiol ochr yn ochr â buddion i fioamrywiaeth. Bydd angen gwybodaeth ychwanegol ar dirfeddianwyr a rheolwyr er mwyn deall y cyfle i gynyddu gorchudd coed ar ffermydd a sut y bydd y cynllun yn gweithredu i'w cynorthwyo i reoli cynefinoedd ar gyfer amryfal fuddion, gan gynnwys cynhyrchiant.

## Rheoli safleoedd dynodedig, nid cynlluniau yn unig

Gellir gwneud newidiadau syml yn yr Haen Sylfaenol i sicrhau na fydd y rhai sydd â thir mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o dan anfantais ariannol o gymharu â'r rhai y tu allan i SoDdGA. Rhaid cael llwybr cymorth clir i ffermwyr weithio gydag CNC i baratoi cynlluniau, ac i gynnal gweithgarwch rheoli ar y fferm drwy'r Haenau Opsiynol a Chydweithredol. Mae mwy i'w wneud i gyfyngu ar y risg o fwlch yn y cyllid i barhau i gynorthwyo perchnogion/deiliaid SoDdGA sydd eisoes yn ymgymryd â gwaith rheoli. Mae CNC yn pryderu bod risg y bydd arian

cyhoeddus yn cael ei ddyrannu i lunio cynllun rheoli SoDdGA, ond na fydd llawer o arian ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig.

## Pwysigrwydd tiroedd comin

Mae'n arwyddocaol bod, yn ôl arwynebedd, tua 40% o diroedd comin Cymru wedi'u dynodi'n SoDdGA. Dangosodd sioeau teithiol Llywodraeth Cymru bod angen i berchnogion/deiliaid SoDdGA a phorwyr tiroedd comin gael mynediad i'r cynllun cymorth newydd cyn gynted ag sy'n ymarferol er mwyn parhau â chamau rheoli tir cadarnhaol. Rydym yn croesawu'r cynigion ar gyfer datblygu cynlluniau rheoli tiroedd comin a strategaethau pori i fynd i'r afael â blaenoriaethau a chanlyniadau rheoli tir yn gynaliadwy pob tir comin. Rhaid i'r cynllun sicrhau bod y camau rheoli a nodir mewn cynllun wedyn yn cael eu hariannu.

## Mwy o amlygrwydd ar gyfer gweithredu i wella ansawdd dŵr

Mae potensial i gyflwyno camau gweithredu i wella ansawdd dŵr fel Cod Dŵr Cyffredinol (yn debyg i'r Cod Cynefinoedd), neu i ddiwygio'r hyn y gellir talu amdano fel Gweithred Gyffredinol ar gyfer dŵr, gan gwmpasu ansawdd dŵr, swm, effeithlonrwydd defnydd dŵr, a rheoli parthau glannau afon. Un o'r mesurau pwysicaf i wella iechyd afonydd yng Nghymru yw sefydlu cynefin a rheolaeth dda ar barthau glannau afon a dylid ei gynnwys mewn rhyw ffurf fel Gweithred Gyffredinol ar gyfer dŵr. Argymhellwn, ar y lleiaf, fod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gyrff dŵr dynodedig a warchodir yn fawr, gan ymestyn hyn i'r holl gyrff dŵr wrth ddatblygu'r cynllun yn y dyfodol. Mae sefydlu a chynnal cynefinoedd glannau afon wedi'i gynnwys yn y cynigion, ond mae angen mwy o amlygrwydd a dealltwriaeth o sut y rhoddir cymorth ar draws y tair Haen.

## Mae'r Adolygiadau Sylfaenol o Gynefinoedd yn allweddol i nodi cyfleoedd ar ffermydd

Mae nodi cyfleoedd i gynyddu gorchudd coed ac ar gyfer rheoli cynefinoedd yn dibynnu ar asesiadau o botensial ecolegol, dichonoldeb a chost-effeithiolrwydd. Mae'r asesiadau hyn yn gofyn am fynediad at gymorth arbenigol sy'n ategu cynllun busnes y fferm ac yn darparu budd addas a pharhaol i'r fferm ac i'r amgylchedd. Mae asesiadau'r Adolygiadau Sylfaenol o Gynefinoedd yn gymaint o arf cyfathrebu ag y maent yn borth hollbwysig i nodi camau i'w cymryd yn gyfnewid am daliadau ar draws yr Haenau Sylfaenol, Opsiynol a Chydweithredol.

## Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r weledigaeth ar gyfer buddsoddi gwledig

Er bod y gofyniad deddfwriaethol ar gyfer y cynllun penodol hwn wedi'i gyfyngu i'r pwerau i ddarparu cymorth mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol, rydym o'r farn ei bod yn hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut i ddefnyddio'r cynllun i gyflymu buddsoddiad o'r sector preifat, gyda'r nod o gau'r bwlch ariannu ar gyfer natur a'r hinsawdd a darparu pont ar gyfer cydweithio rhwng

sectorau. Byddai cynllun ariannu mwy creadigol, gan weithio gyda defnyddwyr a chadwyni cyflenwi, yn helpu i gyflawni gwir botensial a gwerth y cynllun. Gallai defnyddio mecanweithiau cyllid gwyrdd i wobrwyo ffermwyr am gyflenwi nwyddau cyhoeddus ddarparu'r sefydlogrwydd hirdymor a'r raddfa o fuddsoddiad y mae eu hangen ar gyfer sicrhau trawsnewid, a hyrwyddo systemau bwyd a ffermio adfywiol.